OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 1350

# Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2022

## RHAN 2

Rhagarweiniol: cyfrifiadau

**Rhwymedigaeth sylfaenol**

**4.**—(1) Pan fo adran 43(4B)(b) o'r Ddeddf(**1**) yn gymwys i hereditament diffiniedig ar 31 Mawrth 2023, cyfrifir y rhwymedigaeth sylfaenol ("BL") ar gyfer yr hereditament diffiniedig hwnnw drwy ddefnyddio'r fformiwla—

$$\frac{A \times 0.535}{E}$$

(2) Ym mhob achos arall, cyfrifir y BL ar gyfer hereditament diffiniedig drwy ddefnyddio'r fformiwla—

$$A \, x \, 0.535$$

(3) At ddibenion y rheoliad hwn—

A yw'r gwerth ardrethol a ddangosir ar gyfer yr hereditament diffiniedig ar restr leol neu ar restr ganolog ar 31 Mawrth 2023, ac

E yw swm E sy'n gymwys i'r hereditament diffiniedig ar 31 Mawrth 2023 yn unol â Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017(**2**).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 4 mewn grym ar 31.12.2022, gweler **rhl. 1(2)**

**Swm tybiannol a godir**

**5.** Cyfrifir y swm tybiannol a godir ("NCA") ar gyfer hereditament diffiniedig yn unol â rheoliadau 6 a 7.

**6.**—(1) Pan fo adran 43(4B)(b) o'r Ddeddf yn gymwys i hereditament diffiniedig, ar 1 Ebrill 2023, cyfrifir yr NCA ar gyfer yr hereditament diffiniedig hwnnw drwy ddefnyddio'r fformiwla—

$$\frac{A \times B}{E}$$

(**1**) Mewnosodwyd adran 43(4B) o'r Ddeddf gan adran 61(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26). O.S. 2017/1229 (Cy. 293) yw'r gorchymyn y cyfeirir ato yn adran 43(4B)(b) o'r Ddeddf.

(**2**) O.S. 2017/1229 (Cy. 293), a ddiwygiwyd gan 2018/1192 (Cy. 243); mae offeryn diwygio arall ond nid yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) Ym mhob achos arall, cyfrifir yr NCA ar gyfer hereditament diffiniedig drwy ddefnyddio'r fformiwla—

$$A \times B$$

(3) At ddibenion y rheoliad hwn—

A yw'r gwerth ardrethol a ddangosir ar gyfer yr hereditament diffiniedig ar restr leol neu ar restr ganolog ar 1 Ebrill 2023,

B yw'r lluosydd ardrethu annomestig ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023 a gyfrifir yn unol â pharagraff 4B o Atodlen 7 i'r Ddeddf(**3**), ac

E yw swm E sy'n gymwys i'r hereditament diffiniedig ar 1 Ebrill 2023 yn unol â Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017.

**7.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i hereditament diffiniedig pan fo, ar gyfer diwrnod ar ôl 1 Ebrill 2023, y gwerth ardrethol a ddangosir ar restr leol neu ar restr ganolog ar gyfer yr hereditament diffiniedig yn wahanol i'r hyn a ddangosir ar ei gyfer ar restr leol neu ar restr ganolog ar 1 Ebrill 2023.

(2) O'r diwrnod y mae'r newid mewn gwerth ardrethol yn cael effaith, mae rheoliad 6 yn cael effaith o ran yr hereditament diffiniedig gyda'r diwygiadau a ganlyn—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "1 Ebrill 2023", rhodder "y diwrnod y mae'r newid mewn gwerth ardrethol yn cael effaith", a

(b) ym mharagraff (3), yn lle'r diffiniad o 'A' rhodder "A yw'r gwerth ardrethol a ddangosir ar gyfer yr hereditament diffiniedig ar restr leol neu ar restr ganolog ar y diwrnod y mae'r newid mewn gwerth ardrethol yn cael effaith **[**[F1], ond pan fo paragraff 3 o Atodlen 4ZA neu baragraff 3 o Atodlen 5A (rhyddhad gwelliannau) i'r Ddeddf yn gymwys mewn cysylltiad â hereditament (yn ôl y digwydd), A yw'r gwerth ardrethol hwnnw llai G.**]**".

**[**[F2](3) Ym mharagraff (2)(b) uchod, G yw'r swm a ragnodir, neu'r swm a gyfrifir yn unol â'r ddarpariaeth a ragnodir, gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 10(7) o Atodlen 4ZA neu baragraff 6(6) o Atodlen 5A i'r Ddeddf (yn ôl y digwydd).**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn rhl. 7(2)(b) wedi eu mewnosod (27.10.2023 am 8.00 p.m.) gan Rheoliadau Deddf Ardrethu Annomestig 2023 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2023 (O.S. 2022/1350), rhl. 1(3), **6(2)**

**F2** Rhl. 7(3) wedi ei fewnosod (27.10.2023 am 8.00 p.m.) gan Rheoliadau Deddf Ardrethu Annomestig 2023 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2023 (O.S. 2022/1350), rhl. 1(3), **6(3)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 5 mewn grym ar 31.12.2022, gweler **rhl. 1(2)**

**I3** Rhl. 6 mewn grym ar 31.12.2022, gweler **rhl. 1(2)**

**I4** Rhl. 7 mewn grym ar 31.12.2022, gweler **rhl. 1(2)**

(**3**) Mewnosodwyd paragraff 4B o Atodlen 7 i'r Ddeddf gan adran 62(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26).

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2022, RHAN 2.